

Rhaid i chi fod yn garedig, fel mae Duw eich tad yn garedig (Luc 6:36).

Roedd yr efengyllydd Luc yn hoffi defnyddio'r gair 'caredigrwydd' i bwysleisio mawredd cariad Duw.

Mewn ysgrythur sanctaidd, gallech ddweud fod y gair hwn yn mynegi agwedd famol cariad Duw. Mae'n disgrifio sut mae'n gofalu am ei greaduriaid, yn eu dyrchafu, eu cysuro a byth yn blino ar eu croesawu. Yng ngeiriau'r Proffwyd Eseia, addawodd yr Arglwydd i'w bobl, *"Bydda i'n eich cysuro chi fel mam yn cysuro'i phlentyn; byddwch chi'n cael eich cysuro yn Jerwsalem."*ⁱ

Mae caredigrwydd hefyd yn nodwedd sy'n cael ei gydnabod a'i gyhoeddi yn y traddodiad Islamaidd. Ymhlith y 99 Enw Prydferth ar Dduw, y rhai a ddefnyddir amlaf gan Fwslemiaid yw y "Mwyaf Trugarog" ac y "Mwyaf Tyner".

Mae'r darn hwn o'r Efengyl yn disgrifio Iesu'n gwneud cynnig beiddgar a heriol o flaen torfeydd oedd wedi dod o ardaloedd ac o drefi pell ac agos: dywed wrth bawb am efelychu Duw'r Tad, yn benodol yn y cariad trugarog hwn.

Gall hyn ymddangos fel nod amhosibl nad oes modd ei gyrraedd!

Rhaid i chi fod yn garedig, fel mae Duw eich tad yn garedig.

O safbwynt yr Efengyl, os ydym ni am efelychu'r Tad, dylem ni ddilyn Iesu bob dydd a dysgu ganddo i fod y cyntaf i garu. Dyma mae Duw ei hun yn ei wneud gyda ni bob amser.

Dyma'r profiad ysbrydol a ddisgrifir gan y diwinydd Lwtheraidd, Bonhoeffer, (1906-1945): *"Bob dydd mae'r gymuned Gristnogol yn canu 'Rwyf wedi derbyn trugaredd'. Derbyniais innau'r rhodd hon pan oeddwn wedi cau fy nghalon i Dduw; pan oeddwn ar goll ac yn methu dod o hyd i'r ffordd yn ôl. Dyna pryd y daeth gair Duw i gwrdd â fi. Roeddwn yn deall ei fod yn fy ngharu. Daeth Iesu o hyd i fi: roedd yn agos ataf i, ef ei hun. Cysurodd fi, maddeuodd fy nghamgymeriadau i gyd ac nid oedd yn fy meio am ddrygioni. Pan oeddwn yn elyn iddo ac yn methu â chadw ei orchmynion, roedd yn fy nhrin fel ffrind. Mae'n anodd gen i ddeall pam fod yr Arglwydd yn fy ngharu gymaint, pam fy mod mor annwyl iddo. Ni allaf ddeall sut roedd yn dymuno a sut y llwyddodd i ennill fy nghalon gyda'i gariad. Y cyfan y gallaf ei ddweud yw 'Rwyf i wedi derbyn trugaredd.'"*ⁱⁱ

Rhaid i chi fod yn garedig, fel mae Duw eich tad yn garedig.

Mae'r adnod hwn yn ein gwahodd i greu newid dramatig yn ein bywydau. Bob tro rydym ni'n cwrdd â sefyllfa a allai ein tramgwyddo, yn lle mabwysiadu agwedd o ymwrthod, barn a dial, gallwn ddewis dangos maddeuant a thrugaredd.

Nid mater o ddyletswydd yw hyn ond yn hytrach dderbyn gwahoddiad Iesu i symud o farwolaeth hunanoldeb i wir fywyd cymundeb. Byddwn yn gwneud y darganfyddiad llawen ein bod wedi derbyn yr un DNA â'r Tad, nad yw'n condemnio neb yn derfynol ond yn rhoi ail gyfle i bawb, gan agor gorwelion gobaith.

Bydd y dewis hefyd yn gadael i ni baratoi'r ffordd ar gyfer perthnasoedd brawdol fydd yn gallu datblygu cymuned sydd â'i bryd ar gyd-fyw'n heddychlon ac adeiladol.

Rhaid i chi fod yn garedig, fel mae Duw eich tad yn garedig.

Dyma'r hyn a awgrymodd sylfaenydd Focolare, Chiara Lubich, wrth fyfyrio ar ddarn o Efengyl Matthew ⁱⁱⁱ am hapusrwydd y bobl sy'n ymarfer trugaredd, *"Mae thema trugaredd a maddeuant yn treiddio drwy'r Efengyl gyfan... A thrugaredd yw union fynegiant olaf cariad, elusen, yr un sy'n ei gyflawni ac yn ei wneud yn berffaith... Gadewch i ni felly geisio byw'r cariad hwn at eraill ar ffurf trugaredd yn ein holl berthnasoedd! Mae trugaredd yn gariad sy'n gwybod sut i groesawu pob cymydog, yn enwedig y tlotaf a'r mwyaf anghenus. Mae'n gariad nad yw'n mesur ac sy'n helaeth, yn fyd-eang ac yn goncrit. Hebdo, ni fyddai dim ond cyfiawnder, sy'n creu cydraddoldeb ond nid brawdgarwch ... Hyd yn oed os yw'n ymddangos yn anodd ac yn feiddgar, gofynnwn i'n hunain, o flaen pob cymydog, 'Sut fyddai mam y person hwn yn ymddwyn tuag ato neu tuag ati?' Bydd meddwl hyn yn ein helpu i ddeall a byw yn ôl calon Duw."* ^{iv}

Letizia Magri

ⁱ Eiseia 66:13

ⁱⁱ Dietrich Bonhoeffer 23 Jan 1938 "La Fragilita' del Male." Piemme 2015

ⁱⁱⁱ Mathew. 5:7

^{iv} C. Lubich Gair Bywyd Tachwedd 2000